22/12/2025

# Rhwydwaith Sylfaen De-orllewin Cymru wedi'i Ddiweddaru

**Diweddariadau i'r Rhwydwaith Sylfaen ar ôl Ymgysylltu**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Gwybodaeth am y ddogfen hon ..... 3
Yr hyn rydym ni wedi'i wneud ers yr ymgysylltu ..... 3
Trosolwg ..... 3
Crynodeb o sut rydym wedi ymateb i adborth ..... 4
Themâu cyffredin yr adborth ..... 4
Y llwybrau y rhoddwyd y mwyaf o sylwadau arnynt ..... 5
Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru ..... 8
Cyfleoedd yn y Dyfodol ..... 10
Y Camau Nesaf ..... 11

# Gwybodaeth am y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen gryno hon i amlinellu'r diweddariadau a wnaed i Rwydwaith Sylfaen De-orllewin Cymru yn dilyn y gwaith ymgysylltu cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod Haf 2025. Daeth y gwaith ymgysylltu i ben ar 23 Medi 2025.

Mae rhagor o wybodaeth am y canfyddiadau ar gael yn: Canfyddiadau arolwg rhwydwaith bysiau De-orllewin Cymru.

# Yr hyn rydym ni wedi'i wneud ers yr ymgysylltu

Ers y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cydweithio ag awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru i adolygu'r adborth a gyflwynwyd drwy'r broses a nodi cyfleoedd i wneud diwygiadau i'r Rhwydwaith Sylfaen.

Mae'r cynigion ar gyfer y Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru hefyd wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom yn ystod y gwaith ymgysylltu, a'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Rhwydwaith Sylfaen.

## Trosolwg

- Fe wnaethom ddatblygu Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ar gyfer llwybrau bysiau ac amlder gwasanaethau yn Ne-orllewin Cymru.
- Yn ystod Haf 2025, fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd am eu hadborth ar y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig.
- Rydym wedi adolygu'r adborth hwn ac wedi cyhoeddi adroddiad i rannu'r canfyddiadau.
- Rydym wedi ystyried yr adborth ac wedi gwneud rhai diweddariadau i'r Rhwydwaith Sylfaen.
- Mae Awdurdodau Lleol wedi cefnogi'r Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru.
- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydym wedi ymateb i'r adborth. Mae hefyd yn nodi'r Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru.

# Crynodeb o sut rydym wedi ymateb i adborth

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r newidiadau rydym wedi'u gwneud yn dilyn y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhannwyd llawer iawn o adborth gyda ni ynghylch gwella amlder gwasanaethau, ac ychwanegu mwy o wasanaethau yn y bore, gyda'r nos ac ar ddydd Sul at y Rhwydwaith Sylfaen.

Rydym yn cytuno bod y newidiadau hyn yn bwysig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni weithio o fewn cyfyngiadau ein hadnoddau ac, yn anffodus, ni allwn wneud unrhyw gynnydd pellach i amlder ac oriau gweithredu yn y Safle Sylfaen. Dros amser, byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella'r rhwydwaith hwn wrth i fwy o adnoddau ddod ar gael. Ble rydym wedi gallu gwneud newidiadau, mae'r rhain fel arfer yn ymwneud â llwybro gwasanaethau. Er enghraifft, rydym wedi gwneud gwasanaeth penodol yn fwy uniongyrchol, wedi uno dau lwybr i greu gwasanaeth trwodd, ac wedi ymestyn rhai llwybrau.

# Themâu cyffredin yr adborth

Yn ein hadroddiad canfyddiadau, fe wnaethom dynnu sylw at themâu cyffredin yr adborth a gawsom yn ystod y gwaith ymgysylltu. Amlinellir y prif themâu isod.

- **Amlder**: gwell amlder gwasanaethau bysiau i gyrraedd lle y maent am fynd a denu mwy o deithwyr i ddefnyddio gwasanaethau bysiau.
- **Oriau gweithredu**: mwy o wasanaethau yn rhedeg yn gynnar yn y bore ac yn hwyrach gyda'r nos.
- **Gwasanaethau dydd Sul**: mwy o wasanaethau yn rhedeg ar ddyddiau Sul, gyda darpariaeth arbennig o gyfyngedig o ran opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus ar ddydd Sul yn Ne-orllewin Cymru.

Rydym yn deall pwysigrwydd cyflwyno gwasanaethau aml. Rydym hefyd yn deall y bydd cyflwyno mwy o wasanaethau ar benwythnosau, gyda'r nos a'r bore yn helpu i ddarparu dewis i bobl.

Ein her yw bod angen mwy o gyllid, mwy o yrwyr a mwy o fysiau i wella amlder ac ymestyn oriau gweithredu. Rydym yn cynllunio i'r Rhwydwaith Sylfaen fod yn gyraeddadwy gyda'r un adnoddau ag o'r blaen.

Mae hyn yn golygu, os ydym am wneud gwelliant sy'n gofyn am fwy o adnoddau (er enghraifft, gwella amlder neu oriau gweithredu), bydd yn rhaid i ni ddefnyddio llai o adnoddau rhywle arall yn y rhwydwaith. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Yn y Rhwydwaith Sylfaen mae rhai gwasanaethau yn gweld cynnydd mewn amlder. Rydym wedi cyflawni hyn trwy ailddyrannu adnoddau. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau eraill yn gweld gostyngiad bach o ran amlder.

- Perfformiad gwasanaeth: Codwyd cansladau gwasanaeth a achoswyd gan gerbydau yn torri lawr a diffyg prydlondeb fel materion.

Rydym yn cydnabod yr adborth hwn a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i gefnogi perfformiad gwasanaethau bysiau yn y dyfodol. Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth i gwsmeriaid fel bod cwsmeriaid yn cael gwybod am faterion gwasanaeth yn gynnar.

- Integreiddio trenau a bysiau: amserlenni bysiau a threnau i gael eu cydlynu'n well â'i gilydd, a lle bo modd, gwasanaethau bysiau i gysylltu'n well â gorsafoedd rheilffordd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth ar greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig. Rydym hefyd yn cydnabod yr adborth y byddai 60.0% o'r ymatebwyr yn barod i gyfnewid rhwng bysiau neu drenau pe bai hynny'n golygu y gallent gyrraedd eu cyrchfannau yn gynt. Mae'r Rhwydwaith Sylfaen yn cynnwys cyfleoedd i bobl deithio rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffordd. Rydym wedi ystyried yr adborth i gysylltu mwy o wasanaethau â gorsaf reilffordd Parcffordd Port Talbot, ac wedi cyfeirio gwasanaeth u84 Port Talbot – Baglan yno. Nid oedd yr ymgysylltu ar y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig yn cynnwys amserlenni drafft. Yn y cam nesaf o'r datblygiad, byddwn yn datblygu amserlenni manwl ac yn ystyried cysylltiadau rhwng gwasanaethau fel rhan o hyn.

- fflecsi: Mae gweithrediad fflecsi mawr ar waith yn Sir Benfro. Roedd ymatebwyr o Sir Benfro fel arfer yn rhoi sylwadau ar weithrediad y gwasanaethau fflecsi hyn, gan rannu pryderon bod y broses o archebu fflecsi yn arwain at ddefnydd gwael o'r gwasanaethau. Gofynnodd ardaloedd eraill yn Ne-orllewin Cymru a oes rôl i gludiant sy'n ymateb i'r galw yn y Rhwydwaith Sylfaen.
- Ynysu cymdeithasol a chysylltedd gwledig, er enghraifft "Darparu gwasanaeth gwell a mwy aml mewn ardaloedd gwledig!"

Rydym yn deall pwysigrwydd gwasanaethau bysiau o ran cysylltu pobl â gwasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol. Rydym hefyd yn deall yr angen i fynd i'r afael â chysylltedd gwledig a'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu wrth gyrraedd gwasanaethau allweddol. Mae'r Rhwydwaith Sylfaen yn Sir Benfro wedi cynnal y 5 parth fflecsi sy'n cefnogi ardaloedd gwledig. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gysylltu cymunedau gwledig yn well a darparu gwelliannau gwasanaeth wrth i fwy o adnoddau ddod ar gael yn y dyfodol.

# Y llwybrau y rhoddwyd y mwyaf o sylwadau arnynt

Rhoddodd y gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd sylw i 180 o wasanaethau bysiau, gan gynnwys 46 o newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Gallai'r ymatebwyr roi adborth ar lwybrau yr oedd bwriad i'w newid a llwybrau nad oedd bwriad i'w newid. Mae'r llwybrau a gafodd yr adborth mwyaf wedi'u hamlinellu isod, gyda'n hymatebion. Rydym wedi adolygu'r adborth sydd wedi ei rannu ar draws y rhwydwaith De Orllewin cyfan. Roedd gan y mwyafrif o'r gwasanaethau bysiau lai na 10 sylw.

Yn yr adran ganlynol, rhoddir crynodeb o'r holl ddiweddariadau rydym wedi'u gwneud i'r Rhwydwaith Sylfaen.

## g11 Abertawe - Caerfyrddin (28 ymateb)

Llwybr g11 gafodd y mwyaf o adborth wrth ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae llwybr g11 yn seiliedig ar y gwasanaethau bws X11 ac 111 presennol. Mae ein cynigion yn golygu y bydd gwasanaeth g11 yn teithio'n uniongyrchol o Tesco Fforest-fach i Bont Casllwchwr, yna drwy Y Bynie a Llwynhendy i Lanelli. Bydd y newid hwn yn golygu y gall pobl gael teithiau cyflymach o Lwynhendy a'r Bynie i Abertawe, na'r gwasanaeth 111 presennol. Bydd y teithiau hyn tua 19 munud yn gyflymach gan fod y gwasanaeth yn awr yn mynd ar hyd y brif ffordd rhwng Pont Casllwchwr a Tesco Fforest-fach. Nid yw hyn yn effeithio ar yr amser teithio rhwng Canol Tref Llanelli ac Abertawe. Er na fydd y gwasanaeth g11 yn gwasanaethu Garden Village a Chasllwchwr mwyach, mae'r a11 (Abertawe i Gasllwchwr / Llanelli) yn darparu gwasanaeth 30 munud rheolaidd i'r cymunedau hyn. Ni fydd safle bws Maes-y-Coed yn cael ei wasanaethu gan y g11 na'r a11, sy'n golygu y bydd gan y safle hwn wasanaeth bob 2 awr ar yr a17, yn hytrach na bob awr.

Derbyniwyd safbwyntiau cymysg am y newid arfaethedig. Dywedodd 50% o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y llwybr hwn na fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth, neu lawer o wahaniaeth. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n cyfeirio at adfer amlder gwasanaeth bob hanner awr, gwneud y llwybr yn fwy uniongyrchol a chyflymach, gwella oriau gweithredu yn y boreau, gyda'r nos ac ar ddydd Sul, mynd i'r afael â chapasiti'r gwasanaeth yn ystod oriau brig, a gwella dibynadwyedd y gwasanaeth.

Rydym wedi adolygu'r adborth ar y g11 ac nid ydym wedi cynnig diweddaru'r llwybr ymhellach, na pha mor aml y mae'r gwasanaeth hwn yn rhedeg. I bobl Y Bynie a Llwynhendy, mae'r g11 yn wasanaeth mwy uniongyrchol na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd. Yn ystod cam nesaf y broses gynllunio, byddwn yn ystyried cysylltiadau amserlen yn Llanelli i ganfod cyfleoedd i wella'r integreiddio â gwasanaethau eraill yn Llanelli.

## a2 Abertawe - Bae Cas-wellt / Newton a 3A Bae Bracelet - Abertawe (38 ymateb)

Mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd, yn gyffredinol, fe wnaeth ymatebwyr gyfeirio at 3A ac a2 wrth roi adborth. Cafwyd 22 ymateb i a2 a chafwyd 16 ymateb i 3A.

Wrth ymgysylltu â'r cyhoedd, ni wnaethom gynnig newid gwasanaeth i'r 3A (Abertawe - Bae Bracelet), ond fe wnaethom gynnig newid i wasanaeth a2 (Abertawe - Bae Cas-wellt / Newton).

### Disgrifiad o'r newid i wasanaeth a2 (Abertawe - Bae Cas-wellt / Newton)

Roedd y newid hwn yn ymwneud ag uno llwybrau 1 a 2 o dan un rhif er mwyn symleiddio'r rhwydwaith. Mae'n golygu y bydd bysiau'n parhau i deithio bob yn ail rhwng Newton a Bae Cas-wellt, ond ni fyddant yn gwasanaethu Thistleboon na Bae Bracelet mwyach.

I'r rhan fwyaf o deithwyr, mae symlrwydd gwasanaeth a2 yn fantais. Gallant chwilio am un rhif llwybr yn hytrach na dau, a deall i ble mae'n mynd â nhw. Er nad oes amserlen ar gael ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cael amserlen sy'n haws ei deall o Ystumllwynarth i Abertawe. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau'n rhedeg 40 munud ac yna 20 munud ar wahân, ond yn y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig byddent yn rhedeg bob 30 munud yn rheolaidd. I bobl sy'n teithio o Newton

i Ystumllwynarth ac Abertawe, bydd eu taith yn gyflymach, oherwydd bod yr a2 yn fwy uniongyrchol. Mae gan bobl yn Thistleboon heddiw ddewis o'r 3A, drwy West Cross, neu'r 2 mwy uniongyrchol i gyrraedd Abertawe. Bydd y newid hwn yn tynnu'r 2 o Thistleboon. Bydd gwasanaeth 3A yn parhau i wasanaethu pobl Thistleboon, ond mae hyn yn golygu y bydd eu teithiau bob amser drwy West Cross ac felly bydd eu teithiau'n hirach.

### Adborth ar y newid arfaethedig

Cymysg oedd yr adborth ar wasanaethau a2 a 3A. Dangosodd adborth o'r arolwg fod mwy o bobl yn dweud bod y newid yn gwneud teithio ar fws yn fwy anghyfleus, ond dywedodd llawer nad oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth neu eu bod yn ansicr. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn sôn am y tagfeydd ar hyd Ffordd y Mwmbwls, y gostyngiad yn amlder y gwasanaethau yn Thistleboon, y galw am wasanaethau gwell gyda'r nos, cyfleoedd i gysylltu â gorsaf drenau Abertawe ar gyfer twristiaid, a galwadau am amserlen wyneb cloc.

Rydym wedi adolygu'r adborth ar wasanaethau arfaethedig a2 a 3A, ac wedi cadw'r newidiadau i'r a2 yn y Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru.

Rydym hefyd wedi ystyried adborth gan y cyhoedd ac aelodau a etholwyd yn lleol ynghylch cysylltu'r 3A â'r orsaf drenau. Yn y Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru, bydd gwasanaeth 3A yn cael ei chyfuno â gwasanaeth presennol 28 (Abertawe - Pen Plas), i ffurfio gwasanaeth trwodd rhwng Bae Bracelet a Phen Plas, drwy orsaf drenau Abertawe.

## 381 Dinbych-y-pysgod - Hwlffordd (18 ymateb)

Ni wnaethom gynnig newid i'r gwasanaeth bws hwn yn y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig. Fodd bynnag, roedd prif themâu'r adborth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiffyg gwasanaeth gyda'r nos ac ar ddydd Sul. Roedd rhai sylwadau'n canolbwyntio ar gyfleoedd twristiaeth, integreiddio rheilffyrdd, lle cododd eraill bryderon ynghylch gorlenwi ar y bysiau yn ystod anterth yr haf.

Rydym wedi adolygu'r adborth ar wasanaeth 381. O fewn terfynau adnoddau'r Safle Sylfaen, nid ydym wedi nodi cyfle i wneud unrhyw welliannau pellach i'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.

## a11 Abertawe - Casllwchwr / Llanelli (17 ymateb)

Mae'r gwasanaeth a11 yn seiliedig ar y gwasanaeth 111 presennol, ond mae'n golygu newid yn y gwasanaeth. Bellach, bydd bysiau yn teithio mewn dolen o amgylch Casllwchwr bob yn ail, ar hyd Borough Road a Brynllwchwr, yn hytrach na pharhau i Lanelli. Mae'r newid hwn yn cynnig gwell darpariaeth leol yng Nghasllwchwr. Un fantais sy'n gysylltiedig â hyn yw y byddwn yn ailgyflwyno gwasanaeth i ardaloedd Borough Road a Brynllwchwr yng Nghasllwchwr. Ar hyn o bryd nid oes gan yr ardaloedd hyn wasanaeth bws o gwbl. Bydd y gwasanaeth hwn yn cysylltu cymunedau Borough Road a Brynllwchwr â Gorseinon ac Abertawe. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y bydd amlder yn lleihau rhwng Gorseinon / Casllwchwr ac ardal Llanelli o bob hanner awr i bob awr.

Cymysg oedd yr adborth ar y cynnig. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i wella cysylltiadau â'r rheilffordd yn Llanelli ac Abertawe, a gwella amlder.

Bydd gwasanaeth a11 yn mynd drwy orsaf drenau Abertawe. Bydd integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd yn Abertawe yn cael ei ystyried wrth ddatblygu amserlenni'n fanwl. Yn ystod cam nesaf y broses gynllunio, byddwn yn ystyried cysylltiadau amserlen yn Llanelli i ganfod cyfleoedd i wella'r integreiddio â gwasanaeth g11.

### a4 Singleton - Ysbyty Treforys (16 ymateb)

Mae gwasanaeth a4 yn seiliedig ar wasanaethau 4, 4A a 24 y rhwydwaith presennol. Yn y Rhwydwaith Sylfaenol, bydd teithiau bob yn ail yn ystod y dydd bellach yn gwasanaethu Parc Gwernfadog ar ôl Ysbyty Treforys, gan wella mynediad i bobl leol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn gweithredu drwy Hafod, yn hytrach na lôn fysiau Glandŵr.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth rhwng Parc Gwernfadog ac Abertawe bob awr. Yn ein cynigion, bydd y gwasanaeth yn rhedeg bob 30 munud, gan ddarparu gwasanaeth amlach nag ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth 24 yn cysylltu Parc Gwernfadog ac Abertawe, gan wasanaethu nifer o ystadau ar y ffordd. Mae ychwanegu Parc Gwernfadog at lwybr a4 yn golygu y bydd trigolion yr ardal yn elwa o deithiau cyflymach a mwy uniongyrchol i Abertawe.

Bydd pob cymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan wasanaeth 4 yn cadw gwasanaeth 15-20 munud rhwng dydd Llun a dydd Gwener, ac 20 munud ar ddydd Sadwrn. Bellach, mae gan drigolion Hafod wasanaeth amlach i Ganol Dinas Abertawe. Ar hyn o bryd, mae'r X6 yn darparu gwasanaeth bob 30 munud. Fodd bynnag, yn ein cynigion, mae'r a4 yn darparu gwasanaeth bob 15 munud i Hafod.

Cymysg oedd yr adborth a gafwyd ar y gwasanaeth hwn. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn canolbwyntio ar wella amlder ac ar wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ar ddydd Sul. Rydym yn cydnabod y galw am welliannau i amlder a gwasanaethau ar ddydd Sul. Fodd bynnag, nid oes modd cyflawni hyn fel rhan o'r Safle Sylfaen.

## Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru

Mae'r adran hon yn nodi pa newidiadau rydym wedi'u cyflwyno yn y rhwydwaith sylfaen o ganlyniad i waith ymgysylltu â'r cyhoedd:

- u83 Abertawe - Blaengwynfi: Bellach, dim ond i Bort Talbot o Flaengwynfi y bydd y gwasanaeth yn teithio, ond bydd yn parhau i redeg drwodd i / o Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Mae'r newid hwn hefyd yn ystyried effeithiau estyniad diweddar yr X1 i Singleton yn y rhwydwaith presennol o ran effeithlonrwydd gweithredol yn y Rhwydwaith Sylfaen. Mae'r llwybr hefyd wedi cael ei addasu i wasanaethu'r orsaf drenau ym Mhort Talbot.

- u88 Port Talbot – Maesteg: Bydd y gwasanaeth nawr yn teithio i Abertawe a Singleton. Mae'r newid hwn hefyd yn ystyried effeithiau estyniad diweddar yr X1 i Singleton yn y rhwydwaith presennol o ran effeithlonrwydd gweithredol yn y Rhwydwaith Sylfaen. Yn ogystal, bydd bysiau'n rhedeg drwy Moorland Road yn hytrach na Romney Road. Mae hyn i gymryd lle'r u57, sy'n gwasanaethu Glan y Môr Aberafan yn lle.

- u84 Port Talbot – Baglan: Bydd yr u84 yn gwasanaethu Gorsaf Drenau Parcffordd Port Talbot. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gawsom, ac yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i wasanaeth 84 ym mis Medi 2025.

- u4 Abertawe - Ystradgynlais: Mae'r gwyriad drwy Graig Felen wedi cael ei ddileu, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth i Alltwen yn cael ei wella.

- u24 Abertawe - Ystradgynlais: Mae'r gwyriadau drwy Alltwen a Glais wedi cael eu dileu o'r rhan fwyaf o deithiau ar yr u24. Mae hyn er mwyn blaenoriaethu amseroedd teithio cyflymach rhwng Abertawe a Chwm Tawe Uchaf.

- u57 Port Talbot - Castell-nedd: Ar ddyddiau Sadwrn, bydd yr u57 yn teithio drwy Baglan Old Road a Morrisons, yn hytrach na Waterside a'r Ganolfan Adnoddau. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i wasanaethu'r meddygfeydd o ddydd Llun i ddydd Gwener pan fyddant ar agor, ac mae'n blaenoriaethu cysylltiadau â'r Parc Manwerthu ar ddydd Sadwrn. Er mwyn gwella mynediad i Glan y Môr Aberafan, bydd yr u57 yn teithio ar hyd mwy o Ffordd y Dywysoges Margared a rhan ddeheuol Heol Dalton yn lle Channel View a Heol Morfa. Mae hyn yn golygu na fydd yr arosfannau ar Channel View yn cael eu gwasanaethu mwyach. Mae gan y rheini ar ben deheuol Channel View Road (ger arhosfan yr Aquadome) ddewis arall ar Ffordd y Dywysoges Margared, ac mae'r rheini ar ochr ogleddol Channel View Road 350m i ffwrdd o arosfannau eraill ar Heol Romney a Heol Sandown (ar gyfer yr u87).

- u84 Port Talbot - Baglan: Ar ddyddiau Sadwrn, bydd yr u84 yn gwasanaethu Morrisons, yn hytrach na'r Ganolfan Adnoddau. Y rheswm am hyn yw bod y Ganolfan Adnoddau ar gau dros y penwythnos.

- a41 Treforys / Tircoed - Abertawe: Mae gwasanaeth presennol 41 Croes Treforys - Abertawe wedi'i ymestyn i Dircoed ar un o'r tair taith.

- u82 Port Talbot - Sandfields: Er mwyn gwella mynediad i Glan y Môr Aberafan, bydd gwasanaeth u82 yn gwasanaethu mwy o Ffordd y Dywysoges Margared, drwy barhau hyd at Orsaf y Bad Achub cyn dychwelyd i Pier Way a Heol Tir Morfa.

- a3: Bae Bracelet - Pen Plas: Mae gwasanaethau presennol 3A (Bae Bracelet - Abertawe) a 28 (Abertawe - Pen Plas) wedi cael eu cyfuno i ffurfio llwybr uniongyrchol ar draws y ddinas, drwy orsaf drenau Abertawe.

- 198 Pedair Heol - Caerfyrddin: Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys yr holl lwybrau drwy Groesyceiliog, ar wahân i un. Bydd y newid hwn hefyd yn cael ei roi ar waith yn y rhwydwaith presennol o fis Ionawr 2026 ymlaen.

Tra bod y rhestr uchod yn cwmpasu'r newidiadau yr ydym wedi gallu eu gwneud, mae llwybrau a gwasanaethau a godwyd yn yr adborth na allwn wneud newid iddynt ar hyn o bryd. Gan nad ydym yn gallu ymateb i bob eitem o adborth, os nad yw'r llwybr neu'r gwasanaeth wedi'i restru uchod, bydd yn aros fel y'i cynigiwyd yn y Rhwydwaith Sylfaen.

Nid yw'r rhwydwaith presennol yn statig. Yn ystod yr haf, bu nifer o newidiadau i'r rhwydwaith presennol yn y rhanbarth, gan y gweithredwyr. Gan ein bod yn bwriadu defnyddio'r un lefel o adnoddau sy'n bodoli yn y system ar hyn o bryd, rydym wedi gwerthuso'r newidiadau hyn i ddeall a allent effeithio ar ein Rhwydwaith Sylfaen arfaethedig, a sut. Dim ond i lwybrau ac amlder gwasanaethau y mae hyn yn berthnasol; bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar amserlenni yn ystod cam nesaf y gwaith cynllunio. O ganlyniad, mae'r diweddariadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r Rhwydwaith Sylfaen:

- Cafodd gwasanaeth 103 Rhydaman - Llandybie ei dynnu'n ôl ym mis Medi 2025, a chafodd ei ddisodli gan yr 165 a’r X13. Nid yw gwasanaeth 103 bellach wedi'i gynnwys yn y Rhwydwaith Sylfaen.
- Mae gwasanaeth 128 Llanelli - Rhydaman bellach wedi'i lwybro drwy Barc Busnes Cross Hands. Yn ystod y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, cawsom adborth am hyn.
- Nid yw gwasanaeth 129 Caerfyrddin - Rhydaman bellach yn gweithredu drwy Bantyffynnon ar deithiau sy'n ymestyn i/o Dŷ-croes. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y rhwydwaith sylfaen wedi'i ddiweddaru.
- 166 Pontyberem - Caerfyrddin: mae gwasanaeth ychwanegol diweddar ar ddydd Sadwrn wedi cael ei gynnwys yn y Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru.
- Mae gwasanaeth 195 Llanelli - Caerfyrddin wedi cael ei ymestyn i weithredu yn ôl ac ymlaen i Barc Trostre.
- Mae gwasanaeth 197 Llanelli - Caerfyrddin wedi cael ei ymestyn i weithredu yn ôl ac ymlaen i Barc Trostre.
- Nid yw gwasanaeth L3 Llanelli - Pontarddulais bellach yn ymestyn i Glanffrwd.
- Mae gwasanaeth L11 Llanelli - Cydweli wedi cael ei gyflwyno, a'i ychwanegu at y Rhwydwaith Sylfaen.

# Cyfleoedd yn y Dyfodol

Fe wnaeth y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd dynnu sylw at nifer o welliannau uchelgeisiol y gellid eu gwneud yn y dyfodol pe bai mwy o adnoddau ar gael - yn enwedig o ran gwell amlder, darpariaeth gwasanaethau ar ddydd Sul, a chael mwy o wasanaethau yn y bore a gyda'r nos. Gall newidiadau i lwybrau yn y dyfodol gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ymestyn llwybrau, cysylltu gwasanaethau i ffurfio gwasanaethau trwodd, neu nodi cyfleoedd newydd i bobl newid rhwng gwasanaethau bysiau a gwasanaethau trenau. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i archwilio a chyd-ddatblygu diwygiadau a gwelliannau arfaethedig i rwydwaith bysiau De-orllewin Cymru.

Yn yr un modd, rydym am barhau i wrando ar yr adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ar y rhwydwaith bysiau. Bydd cyfleoedd yn y dyfodol i chi gael dweud eich dweud am wasanaethau bysiau yn y rhanbarth.

# Y Camau Nesaf

Mae llwybrau ac amlder gwasanaethau’r Rhwydwaith Sylfaen wedi'i Ddiweddaru wedi’u cymeradwyo gan awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygu amserlenni manwl a chyhoeddi'r Rhwydwaith Sylfaen yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru Gyfan yn 2026. Bydd y Rhwydwaith Sylfaen yn cael ei dendro drwy broses gaffael masnachfreinio, ac yn cael ei roi ar waith yn Ne-orllewin Cymru yn 2027. Rhwng mis Rhagfyr 2025 a Haf 2027, efallai y byddwn yn gwneud rhagor o newidiadau i'r Rhwydwaith Sylfaen i adlewyrchu patrymau teithio sy'n newid neu siâp y rhwydwaith presennol. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyfleu'n glir cyn gweithredu'r rhwydwaith sylfaenol o dan fasnachfraint yn ystod Haf 2027.

Er bod y ddogfen hon yn canolbwyntio ar rwydwaith bysiau De-orllewin Cymru, rydym hefyd yn bwriadu ymgysylltu â chymunedau yng Ngogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru ynghylch eu rhwydweithiau bysiau, yn unol â'n cynlluniau i fasnachfreinio'r ardaloedd hyn drwy eu cyflwyno fesul cam.

Yn ystod y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, cawsom adborth ar ein hadnoddau a'n dulliau ymgysylltu. Cafwyd adborth ar y mapiau rhyngweithiol, gyda phobl yn nodi eu bod yn fwy heriol i'w defnyddio, a'r heriau a oedd ganddynt o ran deall cysylltiadau ac amlder gwasanaethau. Mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb, cafwyd adborth cadarnhaol ar y mapiau sgematig. Yr adborth cyffredinol ar yr arolwg oedd y gellid ei wneud yn haws ei ddefnyddio. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn wrth i ni baratoi i gynnal digwyddiadau ymgysylltu ar y rhwydwaith bysiau yn Ne-orllewin Cymru ac mewn rhanbarthau eraill yn y dyfodol.